



## **CYMWSTRERAU CYMRU**

### **RHESTR CYMWSTRERAU BLAENORIAETHOL A RHAGOLWG**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol, a gaiff ei pharatoi ar y cyd rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys Rhagolwg Cymwysterau Cymru.

Caiff y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ei hadolygu'n rheolaidd gan Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru, a chaiff ei diweddarau yn ôl yr angen i gynnwys cymwysterau sydd â meini prawf cymeradwyo newydd a/neu gymwysterau sydd wedi'u cyfyngu (neu yr ystyrir eu cyfyngu) ac i adlewyrchu diwedd unrhyw gyfnodau cymeradwyo blaenoriaethol. Caiff y cymwysterau hynny y mae eu cyfnod cymeradwyo blaenoriaethol wedi dod i ben eu symud i adran cymwysterau anghyfyngedig gyda chyfnodau cymeradwyo blaenoriaethol sydd wedi dod i ben y ddogfen hon.

Caiff y Rhagolwg ei adolygu'n rheolaidd gan Cymwysterau Cymru hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i roi gwybod i gyrff dyfarnu am flaenoriaethau posibl yn y dyfodol. Caiff y Rhagolwg ei gyhoeddi yn y ddogfen hon o dan y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol (ond nid fel rhan ohoni).

### **RHESTR CYMWSTRERAU BLAENORIAETHOL**

Mae Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru wedi llunio'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol wrth arfer eu pwerau o dan adran 13 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dyletswydd i lunio rhestr o gymwysterau blaenoriaethol).

Gall Cymwysterau Cymru gymeradwyo cymwysterau sydd wedi'u bwriadu i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Mae'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol yn rhestru'r cymwysterau y mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar eu cyfer, neu gymwysterau y mae'n ystyried cyfyngu arnynt ac y mae'n rhaid iddo, o dan adran 18 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ystyried unrhyw geisiadau am gymeradwyaeth ar eu cyfer gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig priodol. Ni chaiff cymwysterau ar y rhestr hon eu cymeradwyo oni fyddant yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig. Nid yw statws cymeradwy yn arwydd o bwysigrwydd cymharol unrhyw gymhwyster.



Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried cymeradwyo cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol os bydd meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig ar eu cyfer. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi blaenoriaeth uwch i gymeradwyo cymwysterau sydd ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol.

Gall Cymwysterau Cymru ddynodi cymwysterau hefyd. Darperir cymwysterau cymeradwy a chymwysterau dynodedig gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig ac maent yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed. Nid oes rhaid i gymwysterau dynodedig fod yn unigryw i Gymru o reidrydd, ac maent fel arfer ar gael i ddysgwyr mewn gwledydd eraill yn y DU. Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda chyrff cydnabyddedig mewn perthynas â cheisiadau i ddynodi cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi'r [polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol](#), sy'n rhoi rhagor o fanylion am y ffordd y caiff y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ei rheoli.

### **Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig**

Gall Cymwysterau Cymru gyfyngu ar nifer y ffurfiau ar gymhwyster a all gael eu cymeradwyo ar unrhyw adeg benodol. Mae'r adran hon yn cynnwys dwy ran. Mae Rhan 1 yn ymwneud â'r cymwysterau hynny lle mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu cyfyngu. Caiff sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad i gyfyngu eu hystyried cyn y caiff unrhyw benderfyniad i gyfyngu ei gyhoeddi. Caiff penderfyniadau i gyfyngu eu dangos yn Rhan 2.

### ***Rhan 1 - Bwriad i gyfyngu***

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnig cyfyngu ar y disgrifiadau canlynol o gymwysterau i **un ffurf yr un:**

Cymhwyster sylfaen mewn Adeiladu

Cymhwyster sylfaen mewn Gwasanaethau Adeiladu

Cymhwyster dilyniant mewn Adeiladu

Cymhwyster dilyniant mewn Gwasanaethau Adeiladu

Cymhwyster prentisiaeth mewn Adeiladu



Cymhwyster prentisiaeth mewn Gwasanaethau Adeiladu

Mae'r hysbysiad i gyfyngu fel sy'n ofynnol gan Adran 14 o'r Ddeddf ar gael yn Atodiad A i'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol.

## ***Rhan 2 - Penderfyniadau i gyfyngu***

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyfyngu ar y disgrifiadau canlynol o gymwysterau:

*Noder y diwygiwyd teitlau rhai cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ers cyhoeddi'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ddiwethaf.*

TGAU lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (dyfarniad sengl)

TGAU lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (dyfarniad dwbl)<sup>1</sup>

Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

TAG Safon Uwch ac UG mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.<sup>2</sup>

Diploma Lefel 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Lefel 3 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

Lefel 3 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)

---

<sup>1</sup>Nodwyd y cymwysterau TGAU dyfarniad sengl a dwbl fel Lefel 1/2 yn flaenorol: Cyflwyniad i lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant - Egwyddorion a Chyd-destunau

<sup>2</sup>Mae'r cymwysterau Safon Uwch, Diploma Lefel 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn disodli'r ddau gymhwyster gwybodaeth Lefel 3 a nodwyd yn y Rhestr flaenorol fel "Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau"



Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Lefel 5 Arwain a Rheoli lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Lefel 4 lechyd a Gofal Cymdeithasol gydag arbenigedd

Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag arbenigedd



## **Cymwysterau anghyfyngedig gyda chyfnodau cymeradwyo blaenoriaethol sydd wedi dod i ben**

Mae'r cyfnodau cymeradwyo blaenoriaethol ar gyfer y cymwysterau canlynol wedi dod i ben. Mae gan y cymwysterau hyn feini prawf cymeradwyo o hyd a gallant gael eu hystyried i'w cymeradwyo.

### **TGAU**

Daearyddiaeth  
Ffrangeg  
Almaeneg  
Sbaeneg  
Cerddoriaeth  
Cyfres Wyddoniaeth  
Drama  
Addysg Gorfforol  
Hanes  
Bwyd a Maeth  
Astudiaethau Crefyddol  
Celf a Dylunio  
Busnes  
Cyfrifiadureg  
Dylunio a Thechnoleg  
Astudiaethau'r Cyfryngau  
Cymraeg (ail iaith)

### **UG a Safon Uwch**

Cymraeg (ail iaith)  
Drama  
Cerddoriaeth  
Addysg Gorfforol  
Daearyddiaeth  
Ffrangeg  
Almaeneg  
Sbaeneg  
Astudiaethau Crefyddol  
Dylunio a Thechnoleg  
Mathemateg Bellach  
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth  
Y Gyfraith  
Mathemateg  
Astudiaethau'r Cyfryngau

Cytunwyd ar y cymwysterau a restrir ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ar y cyd rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Cymwysterau Cymru ac fe'u cyhoeddwyd ar **3 Awst 2018**.





## RHAGOLWG

Mae'r Rhagolwg yn disgrifio'r cymwysterau y mae Cymwysterau Cymru yn ystyried eu cynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol yn y dyfodol. Mae'r Rhagolwg yn galluogi Cymwysterau Cymru i hysbysu cyrff dyfarnu o flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ac i ddatblygu meini prawf cymeradwyo priodol.

Nid yw'r ffaith bod cymwysterau neu ddisgrifiadau o gymwysterau wedi'u cynnwys ar y Rhagolwg o reidrwydd yn golygu y cânt eu cynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol yn y dyfodol. Yn yr un modd, gallai cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster gael ei gynnwys mewn Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol yn y dyfodol heb ymddangos yn y Rhagolwg yn gyntaf.

Mae'r gwaith o reoleiddio cymwysterau galwedigaethol yn elfen bwysig o waith Cymwysterau Cymru. Er mwyn gwneud y gwaith o reoleiddio cymwysterau galwedigaethol yn fwy hwylus ac effeithiol, rydym yn mabwysiadu dull o weithredu fesul sector wrth adolygu cymwysterau. Y sectorau nesaf a gaiff eu hadolygu fydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Peirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni. Gallai'r adolygiadau hyn arwain at gynnwys cymwysterau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a/neu Beirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol yn y dyfodol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'n bosibl y caiff pynciau eraill eu hychwanegu.

**Rydym yn ystyried rhestru'r canlynol unwaith y caiff y meini prawf cymeradwyo eu datblygu:**

Un cymhwyster TGAU neu fwy mewn pwnc sy'n ymwneud ag adeiladu

Un cymhwyster TAG Safon Uwch neu fwy mewn pwnc sy'n ymwneud ag adeiladu.



## **ATODIAD A: HYSBYSIAD O FWRIAD I GYFYNGU AR GYMWYSTERAU ADEILADU A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG**

Mae'n ofynnol i Cymwysterau Cymru o dan Adran 14 o Ddeddf Cymwysterau Cymru hysbysu pob corff cydnabyddedig, ac unrhyw berson arall y mae Cymwysterau Cymru yn ystyried y gellid disgwyl yn rhesymol fod ganddo fuddiant, am y cynnig i gyfyngu. Mae'r pwnc, y rhesymeg, y dystiolaeth ategol a'r trefniadau ar gyfer y cyfyngiad arfaethedig ar gael isod. Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried sylwadau ar y cynnig hwn a dderbynnir erbyn **3 Awst 2018** cyn cyhoeddi penderfyniad ar gyfyngiad.

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnig cyfyngu ar y disgrifiadau canlynol o gymwysterau i **un ffurf yr un:**

Cymhwyster sylfaen mewn Adeiladu

Cymhwyster sylfaen mewn Gwasanaethau Adeiladu

Cymhwyster dilyniant mewn Adeiladu

Cymhwyster dilyniant mewn Gwasanaethau Adeiladu

Cymhwyster prentisiaeth mewn Adeiladu

Cymhwyster prentisiaeth mewn Gwasanaethau Adeiladu

Mae'n bosibl y bydd Cymwysterau Cymru yn amrywio'r teitlau a/neu'n cymeradwyo teitlau ar gyfer disgrifiadau'r cymwysterau hyn cyn cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo.

Gellir dod o hyd i restr o'r cymwysterau y gallai'r cyfyngiad arfaethedig effeithio arnynt o bosibl ar y wefan **yma**. Os byddwn yn parhau gyda'r cyfyngiad, gall cyrff dyfarnu (neu bartion eraill sydd â diddordeb) gyfiawnhau pam na ddylid cynnwys cymwysterau penodol ar y rhestr neu awgrymu cymwysterau eraill y dylid eu hychwanegu.

*Rhesymeg dros y cyfyngiad arfaethedig:*





Rhwng mis Hydref 2016 a mis Chwefror 2018, cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r cymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (yr "Adolygiad"), a chyhoeddwyd y canfyddiadau yn yr adroddiad: '[Adeiladu'r Dyfodol](#)'. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y dull i'w ddefnyddio i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau rhwng 8 Chwefror a 13 Ebrill 2018. Cynigir y cyfyngiad er mwyn hyrwyddo ein Prif Amcanion, ac er mwyn gwneud y canlynolgwneud y canlynol:

Ein galluogi i ddewis rhwng cyrff dyfarnu gwahanol drwy broses o gystadleuaeth deg ac agored, i nodi corff dyfarnu i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r cymwysterau newydd hyn; ac

- Osgoi anghysondeb rhwng ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster, gan alluogi pob dysgwr i gael ei asesu gan ddefnyddio'r un methodoleg asesu, a thrwy hynny, sicrau mwy o gysondeb.

Mae i'r broses gyfyngu a chomisiynu hon y fantais hefyd o'n galluogi i wneud y canlynol:

- Rhagnodi gofynion mewn perthynas â darparu asesiadau cyfrwng Cymraeg, datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer darparwyr dysgu a galluogi adnoddau i ganolbwyntio ar nifer lai o gymwysterau.
- Sicrhau bod llwybrau cymwysterau'n fyd cydlynol ac yn haws i'w deall i ddysgwyr, cyflogwyr a chanolfannau.
- Rhoi mwy o bwylais ar sgiliau craidd, rhyngpersonol a datrys problemau, sgiliau a deunyddiau adeiladu traddodiadol, sgiliau a deunyddiau adeiladu cyfoes, dilyniant o addysg bellach i brentisiaethau a datblygu sgiliau a feithrinir wrth weithio.
- Diwallu anghenion yr amrywiaeth o gyflogwyr yng Nghymru yn well, p'un a ydynt yn fawr neu'n fach ac mewn masnachau prif ffrwd ac arbenigol.
- Cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn fasnachol hyfyw i gorff dyfarnu ddatblygu cymwysterau newydd sy'n diwallu anghenion Cymru.



*Tystiolaeth ategol ar gyfer y cyfyngiad arfaethedig:*

- Nododd yr Adolygiad faterion yn ymwneud â chymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a chynigiwyd y dylid datblygu cyfres newydd o gymwysterau ar gyfer dysgwyr Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yng Nghymru mewn addysg bellach a phrentisiaethau, gyda'r dyddiad targed o'u haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2020 neu fis Medi 2021. Rydym wedi dewis mis Medi 2021 er mwyn sicrhau y rhoddir digon amser i ddatblygu a rheoli'r newid. Roedd yr Adolygiad yn cynnwys rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfweiliadau a thrafodaethau gyda chyrff sector, darparwyr dysgu, cyflogwyr a dysgwyr.
- Gwnaethom lansio ymgynghoriad ar y cynigion hyn ym mis Chwefror 2018. Cafwyd 33 o ymatebion; mae crynodeb o'r ymatebion a thabl o'n sylwadau arnynt ar gael ar ein [gwefan](#). O'r ymatebwyr a nododd ffafriaeth, roedd 85% ohonynt o blaid rhoi cyfyngiad ar y ddarpariaeth Addysg Bellach ac roedd 67% o'r ymatebwyr a nododd ffafriaeth o blaid rhoi cyfyngiad ar y ddarpariaeth Prentisiaethau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.
- Mae Cymwysterau Cymru yn fodlon, gan ystyried prif nodau Cymwysterau Cymru, ei bod yn ddymunol i gyfyngu ar nifer y ffurfiau ar gymwysterau y mae dysgwyr yn eu hastudio ar gyrsgiau a ariennir yn gyhoeddus mewn addysg bellach ac mewn prentisiaethau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig i uchafswm o naill ai un neu ddau ar gyfer pob un o'r cymwysterau cyfyngedig gan alluogi cynifer o gymeradwyaethau crefft-benodol ag sydd eu hangen.

*Trefniadau ar gyfer y cyfyngiad arfaethedig:*

Cyn gwneud penderfyniad i gyfyngu, mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo mewn perthynas â'r cynnig. Mae gan bartion sydd â diddordeb hyd at **3 Awst 2018** i gyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad hwn i gyfyngu. Dylid cyflwyno sylwadau i [constructionreview@qualificationswales.org](mailto:constructionreview@qualificationswales.org)

Cyfyngiad arfaethedig:	Cyfyngu'r cymwysterau uchod i ddarparwr gwasanaetha unigol neu gonsortwm o ddarparwyr.
------------------------	--



Dull cyfyngu arfaethedig:	Llwybr comisiynu
Cyfnod cyfyngu arfaethedig:	5-7 mlynedd
Dyddiau cau ar gyfer sylwadau ar y cyfyngiad arfaethedig:	<b>3 Awst 2018</b>

*Amserlenni lefel uchel dangosol:*

<b>Gweithgareddau</b>	<b>Dyddiadau Dangosol</b>
Trafod y Cynnwys Pwnc a ddatblygwyd gan Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau newydd ar y cyd â chyrrff sector ac arbenigwyr pwnc	Awst 2018 - Gorffennaf 2019
Ymgysylltu cyn y broses dendro	Awst 2018 - Medi 2018
Cyhoeddi hysbysiad contract	Diwedd mis Hydref 2018
Dyfarnu contract	Mehefin 2019
Cyrrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau gan ymgynghori â rhanddeiliaid	O fis Gorffennaf 2019
Cymwysterau Cymru yn datblygu, ymgynghori a chyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo	Awst 2019 – Mawrth 2020
Cymwysterau yn mynd drwy'r Broses Gymeradwyo	Ebrill 2020 – Hydref 2020
Addysgu'r cymwysterau newydd am y tro cyntaf	Medi 2021
Dyddiad gorffen gweithredol (cofrestru'n dod i ben)	Dyddiad arfaethedig 31 Awst 2026/2028
Dyddiad gorffen ardystio	Dyddiad arfaethedig 31 Awst 2029/2031